

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 106A(4)(b) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

2023 Rhif (Cy.)

ADEILADU, CYMRU

Gorchymyn Contractau Adeiladu  
(Eithrio) (Cymru) 2023

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Rhan 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth o ran telerau contractau adeiladu a materion cysylltiedig. Mae adran 106A(2) o'r Ddeddf honno yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddatgymhwyso, drwy orchymyn, unrhyw un neu bob un o'r darpariaethau yn Rhan 2 (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru a Lloegr) mewn perthynas ag unrhyw ddisgrifiad o gontractau adeiladu sy'n ymwneud ag ymgymryd â gweithrediadau adeiladu penodol yng Nghymru.

Mae erthygl 3 yn datgymhwyso Rhan 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â chontractau prosiectau seilwaith penodol yng Nghymru pan fo un o'r partion i'r contract yn ymgymwrwr carthffosiaeth neu ddŵr, yn ddarostyngedig i'r gofynion a ganlyn. Rhaid i'r contract ymwneud â phrosiect a ddynodir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn achos o gaffael uniongyrchol ar gyfer prosiect cwsmeriaid yn unol ag amodau penodi'r ymgymwrwr perthnasol. Rhaid i gontractau o'r fath hefyd gynnwys gwneud taliadau rheolaidd drwy gyfeirio at gostau gwirioneddol yr eir iddynt ac a ddaw yn ddyledus ar ôl i un neu ragor o'r rhannau o'r gweithrediadau adeiladu gael eu cwblhau ac y gellir cyflawni gwasanaeth carthffosiaeth neu ddŵr.

Mae erthygl 4 yn datgymhwyso adran 110(1A) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r math o gontract y cyfeirir ato, uchod, pan fo parti i'r contract hwnnw yn ymrwymo i is-gontract. Mae adran 110(1A) o'r Ddeddf yn darparu nad yw'r gofyniad i gontractau ddarparu trefn ddigonol ar gyfer pennu pa daliadau

sy'n dod yn ddyledus a phryd o dan y contract wedi ei fodloni os yw'r taliad yn amodol ar gyflawni rhwymedigaethau o dan contract arall.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Ddŵr, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 106A(4)(b) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2023 Rhif (Cy. )**

**ADEILADU, CYMRU**

**Gorchymyn Contractau Adeiladu  
(Eithrio) (Cymru) 2023**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym*

*5 Mai 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 106A(2) a 146(1) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 106A(4)(b) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â chontract adeiladu i'r graddau y mae'n ymwneud â chynnal gweithrediadau adeiladu yng Nghymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mai 2023.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

---

(1) 1996 p. 53; mewnosodwyd adran 106A gan adran 138(3) o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20). Mae'r cyfeiriad yn Neddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

mae i “contract adeiladu” yr ystyr a roddir i  
“construction contract” yn adran 104 o’r Ddeddf;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Grantiau  
Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996;

mae i “gweithrediadau adeiladu” yr ystyr a roddir i  
“construction operations” yn adran 105 o’r  
Ddeddf.

### **Caffael uniongyrchol ar gyfer prosiectau cwsmeriaid**

3.—(1) Nid yw Rhan 2 o’r Ddeddf yn gymwys i  
gontract adeiladu sy’n bodloni’r amodau a ganlyn—

- (a) mae’n cynnwys datganiad sy’n nodi ei fod yn  
gontract o’r fath;
- (b) mae un o’r partïon i’r contract yn ymgwymerwr  
carthffosiaeth neu’n ymgwymerwr dŵr;
- (c) mae’r gweithrediadau adeiladu y mae’r  
contract yn ymwneud â hwy yn gysylltiedig â  
phrosiect seilwaith a ddynodir gan yr  
Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr  
yn achos o gaffael uniongyrchol ar gyfer  
prosiect cwsmeriaid yn unol ag amodau  
penodi’r ymgwymerwr carthffosiaeth neu’r  
ymgwymerwr dŵr;
- (d) mae’r gydnabyddiaeth sy’n ddyledus o dan y  
contract yn cynnwys, o leiaf yn rhannol,  
daliadau rheolaidd—
  - (i) sy’n cael eu pennu’n rhannol drwy  
gyfeirio at gostau gwirioneddol y  
gweithrediadau adeiladu y mae’r contract  
yn ymwneud â hwy, a
  - (ii) sy’n dod yn daladwy ar ôl i un rhan o  
leiaf o’r gweithrediadau adeiladu hynny  
gael ei chwblhau ac y gellir cyflawni  
gwasanaeth carthffosiaeth neu ddŵr.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “ymgwymerwr  
carthffosiaeth” ac “ymgwymerwr dŵr” yw ymgwymerwr  
carthffosiaeth neu ymgwymerwr dŵr, yn ôl y digwydd, a  
benodir o dan adran 6(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr  
1991(1)

### **Caffael uniongyrchol ar gyfer is-gontractau prosiectau cwsmeriaid**

4.—(1) Mae contract adeiladu wedi ei eithrio rhag  
gweithrediad adran 110(1A) o’r Ddeddf os yw’n  
gontract yn unol ag ef y mae parti i gontract perthnasol  
wedi is-gontractio i berson arall rai neu bob un o’i  
rwymedigaethau o dan y contract hwnnw i gynnal

---

(1) 1991 p. 56.

gweithrediadau adeiladu, neu i drefnu i eraill gynnal gweithrediadau adeiladu.

(2) Ym mharagraff (1), mae contract perthnasol yn gontract sydd wedi ei eithrio rhag gweithrediad Rhan 2 o'r Ddeddf yn unol ag erthygl 3.

*Enw*

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion

Cymru

Dyddiad